

Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 37/2025

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2025

Dilysu profion asesu gwybyddol (PAGau) Cymraeg: cam un

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-584-2

Dilysu profion asesu gwybyddol (PAGau) Cymraeg: cam un

Awduron: Kathryn Jones a Gwerfyl Roberts (IAITH: y ganolfan cynllunio iaith), Catrin H. Jones (Prifysgol Bangor).



Full Research Report: Adroddiad Ymchwil Llawn: Jones, K., Roberts, G., and Jones, C.H.; (2025). Dilysu Profion Asesu Gwybyddol Cymraeg: Cam Un. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 37/2025

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/dilysu-profion-asesu-gwybyddol-cymraeg-cam-un>

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: Dr Jacqueline Aneen Campbell

Is-adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.lechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

Rhestr termau	2
1 Cyflwyniad.....	4
1.1 Cyd-destun	4
1.2 Ynglŷn â'r astudiaeth hon	5
2 Methodoleg	6
2.1 Dull a ddefnyddir ar gyfer yr adolygiad pen-desg	6
2.2 Y dull a ddefnyddir ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.....	7
2.3 Ymgynghoriad rhwydwaith Gwasanaethau Asesu'r Cof (GAC):.....	7
3 Canfyddiadau.....	9
3.1 Canfyddiadau'r adolygiad pen-desg	9
3.2 Trosolwg o Archwiliad Gwybyddol Addenbrooke-III (ACE-III).....	10
3.3 Trosolwg o Asesiad Gwybyddol Montreal (MoCA)	11
3.4 Casgliad yr adolygiad pen-desg	12
3.5 Canfyddiadau o'r ymgysylltu â rhanddeiliaid	13
4 Casgliadau	15
5 Argymhellion	16
6 Llyfryddiaeth.....	18
Atodiad 1.....	20
Atodiad 2.....	21
Atodiad 3.....	24

Rhestr termau

ACE-III

Addenbrooke's Cognitive Examination-III (Asesiad Gwybyddol Addenbrooke-III)

AMTS

Abbreviated Mental Test Score (Sgôr Prawf Meddyliol Cryno)

GAC

Gwasanaethau Asesu'r Cof (Memory Assessment Services)

GIG

Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

GPCOG

General Practitioner Assessment of Cognition (Asesiad o Wybyddiaeth Ymarferydd Cyffredinol)

IAITH

Y ganolfan cynllunio iaith

IQCODE

Informant Questionnaire on Cognitive Decline in the Elderly (Holiadur Hysbysydd ar Ddirywiad Gwybyddol â'r Henoed)

LLAIS

Language Awareness Infrastructure Support (Cefnogi Isadeiledd Ymwybyddiaeth Iaith). Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd gwefan LLAIS micym.org yn cynnig gwybodaeth am fesurau iechyd sydd ar gael yn Gymraeg, eu manylion mynediad a'u trefniadau trwyddedu.

Mini-Cog

Mini Cognitive Assessment Instrument (Offeryn Asesu Gwybyddol Mini)

M-ACE

Mini-Addenbrooke's Cognitive Examination (Archwiliad Gwybyddol Mini-Addenbrooke)

MIS

Memory Impairment Screen (Sgrin Nam ar y Cof)

MMSE

Mini Mental State Examination (Asesiad Cyflwr Meddwl Mini)

MoCA

Montreal Cognitive Assessment (Asesiad Gwybyddol Montreal)

NICE

The National Institute for Health and Care Excellence (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal)

PAG(au)

Prawf/Profion Asesu Gwybyddol (Cognitive Assessment Test(s))

10-CS

10-point Cognitive Screener (Sgriniwr Gwybyddol-10 pwynt)

SIS

6-item Screener (Sgriniwr 6-eitem)

6CIT

6-item Cognitive Impairment Test (Prawf Nam Gwybyddol 6-eitem)

RBANS (BAASN)

Repeatable Battery for the Assessment of Neuropsychological Status (Batri Amlroddadwy ar gyfer Asesiad o Statws Niwroseicolegol)

TYM

Test Your Memory (Profwch eich Cof)

1 Cyflwyniad

Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru IAITH, mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, i ymgymryd â'r cam cyntaf o ymchwil i ddilysu Profion Asesu Gwybyddol (PAGau) Cymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r profion a ddefnyddir mewn Gwasanaethau Asesu Cof (GAC) ledled Cymru ar gyfer gwneud diagnosis o ddementia rhwng mis Hydref 2021 a mis Mai 2023. Mae'n tynnu sylw at y cynnydd a wnaed wrth ddilysu PAGau Cymraeg ac yn gosod y sylfaen ar gyfer ymdrechion yn y dyfodol i sicrhau diagnosis dementia cywir a diwylliannol briodol, gan wella gofal yn y pen draw i'r rhai a chaiff eu heffeithio yng Nghymru.

Ar 1 Ebrill 2024, roedd 23,770 o bobl 65 oed neu'n hŷn wedi cofrestru gyda meddygfeydd yng Nghymru a gafodd ddiagnosis o ddementia. Fodd bynnag, gan fod nifer o bobl yn debygol o fod â dementia nad ydynt wedi cael diagnosis ffurfiol eto, amcangyfrifir bod cyfanswm y bobl â dementia yng Nghymru yn 42,426¹. Mae hyn yn golygu bod 56% o'r rheiny sy'n 65 a throsodd sydd â dementia yng Nghymru [yn debygol o fod wedi cael diagnosis](#). Mae diagnosis cywir yn hanfodol ar gyfer darparu gofal a chymorth priodol, gan sicrhau bod cleifion yn derbyn y triniaethau a'r ymyriadau cywir i wella ansawdd eu bywyd yn sylweddol.

1.1 Cyd-destun

Mae'r fframwaith strategol "Mwy na Geiriau", [a gyhoeddwyd gyntaf yn 2012](#) ac a ddiweddarwyd yn [2016 a 2022](#), yn amlygu'r angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i wella ansawdd gofal. Mae [Cynllun Gweithredu Dementia 2018-2022](#) yn cydnabod ymhellach bod derbyn gofal a chymorth yn eu hiaith gyntaf neu eu dewis iaith yn angen clinigol i siaradwyr Cymraeg sy'n byw gyda dementia. Wrth i'w cyflwr fynd yn ei flaen, gall pobl ddwyieithog â dementia ddeall neu gallu cyfathrebu mewn un iaith yn unig (Llywodraeth Cymru, 2018:31).

Mae dogfen ddilydol Llywodraeth Cymru ar [gryfhau'r ddarpariaeth mewn ymateb i COVID-19](#) (Llywodraeth Cymru, 2021) hefyd yn cydnabod yr angen i 'weithio gyda rhanddeiliaid i nodi a defnyddio'r adnoddau asesu dementia sydd wedi'u dilysu'n glinigol a chadarn i'w defnyddio drwy gyfrwng y Gymraeg, a chomisiynu ymchwil fel bo'r angen' (2021:10). [Mae'r Cynllun Pum Mlynedd \(2022-27\) Mwy na Geiriau](#) presennol yn ailadrodd bod 'derbyn gwasanaethau yn Gymraeg yn aml yn fater o angen. Mae hyn yn arbennig o wir i bobol sydd â dementia, lle mae'n hollbwysig bod asesiadau'n cael eu darparu yn Gymraeg' (Llywodraeth Cymru, 2022:4).

Yn 2013, cysylltodd Cymdeithas Alzheimer â [LLAIS \(Cefnogi Isadeiledd Ymwybyddiaeth iaith\) ym Mhrifysgol Bangor](#) i gyfieithu'r Pecyn Cymorth Asesu Gwybyddol ar gyfer Clinigwyr i'r Gymraeg ac i ymgymryd â dilysiad ieithyddol o dri phrawf asesu a gynhwysir yn y pecyn cymorth: Asesiad Gwybyddol Montreal (MoCA), Asesiad Gwybyddol yr Addenbrooke-III (ACE-III), ac Asesiad o Wybyddiaeth Ymarferydd Cyffredinol (GPCOG). Bryd hynny,

¹ Mae'r mesur a ddiagnosisir yn seiliedig ar unigolion sydd wedi'u cofrestru gyda meddygon teulu Cymru, a all gynnwys rhai o drigolion Lloegr. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrif ar gyfer achosion sydd wedi cael diagnosis a heb ddiagnosis yn seiliedig ar boblogaeth Cymru.

ystyriwyd y tri phrawf hyn fel yr asesiadau gwybyddol a ddefnyddir fwyaf eang mewn GAC yng Nghymru.

Mae asesiadau gwybyddol eraill sydd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg, ond nid gan LLAIS, yn cynnwys: y Batri Amlroddadwy ar gyfer Asesiad o Statws Niwroseicolegol (BAASN / RBANS) (Roberts et al., 2010), y prawf IQ cyn salwch, a Spot the Word (Clare et al., 2017).

Dilynodd y profion asesu gwybyddol a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan LLAIS arfer gorau ar gyfer cyfieithu a dilysu ieithyddol fel yr argymhellwyd gan Wild et al. (2005). Roedd hyn yn cynnwys proses drylwyr, ailadroddol o gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg ac yna yn ôl i'r Saesneg, ynghyd ag ymgynghoriadau â defnyddwyr y prawf, er mwyn sicrhau cysondeb a chyfwerthedd yn y ddwy fersiwn iaith. Fodd bynnag, nid yw profion dilysrwydd seicometrig i gadarnhau cywirdeb ac addasrwydd y mesurau hyn yn Gymraeg wedi'u cynnal eto.

Dylai dau berson sydd â'r un graddau o nam gwybyddol gyflawni'r un canlyniad o brawf gwybyddol, pa iaith bynnag yw'r asesiad. Felly, mae angen ystyried y posibilrwydd, heb ddilysu seicometrig y fersiwn Gymraeg, y gallai rhai o'r profion yn y Gymraeg oramcangyfrif neu danbrisio maint y nam gwybyddol o'i gymharu â'r un profion yn Saesneg.

1.2 Ynglŷn â'r astudiaeth hon

Prif nod yr ymchwil hwn (cam un) yw nodi'r PAG Cymraeg a ddefnyddir amlaf yng Nghymru. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i sefydlu'r gofynion a gosod y sylfaen ar gyfer camau dilysu dilynol.

Prif amcan yr ymchwil hwn yw cynnal adolygiad pen-desg ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i:

- sefydlu pa PAG(au) a ddefnyddir amlaf yng Nghymru yn ystod y cyfnod astudio (2021 i 2023)
- gwerthuso priodweddau seicometrig y PAGau sydd wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg
- adnabod strategaethau ar gyfer casglu data normadol o ansawdd uchel ar y fersiwn/fersiynau Cymraeg mwyaf cyffredin a ddefnyddir o PAGau i sicrhau dilysu seicometrig a hwyluso dehongliad dibynadwy o asesiadau mewn lleoliadau clinigol.

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Adran 2: y fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer yr adolygiad pen-desg ac ymgynghori â rhanddeiliaid
- Adran 3: prif ganfyddiadau
- Adran 4: casgliadau
- Adran 5: argymhellion ar gyfer gwaith dilysu pellach.

2 Methodoleg

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer yr adolygiad pen-desg ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod cam cyntaf dilysu PAGau Cymraeg.

2.1 Dull a ddefnyddir ar gyfer yr adolygiad pen-desg

Roedd yr adolygiad, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Mai 2022, yn cynnwys archwiliad systematig o ganllawiau'r DU sy'n cymeradwyo'r defnydd o PAGau mewn gwahanol leoliadau gofal dementia, gan gynnwys asesiadau cychwynnol meddygon teulu, GAC, lleoliadau gofal aciwt, a chartrefi gofal ledled Cymru.

Archwiliodd yr adolygiad briodweddau seicometrig pob prawf a grybwyllir yng nghanllawiau'r DU.

Archwiliwyd ansawdd a thrylwyredd y PAGau trwy archwilio priodweddau seicometrig pob prawf. Y prif nodweddion seicometrig a adolygwyd oedd:

- dibynadwyedd: cysondeb sgoriau prawf
- dilysrwydd: i ba raddau y mae prawf yn mesur yr hyn y mae'n bwriadu ei fesur (Souza et al., 2017)
- sensitifrwydd: gallu prawf i adnabod cleifion â chlefyd yn gywir. Mae prawf sy'n 100% sensitif yn golygu bod pob unigolyn sydd gyda chlefyd yn cael ei nodi'n gywir fel unigolyn â chlefyd, h.y. nid oes canlyniadau negatif anghywir (Swift et al., 2020)
- penodolrwydd: gallu prawf i adnabod yn gywir pobl heb y clefyd. Mae prawf sy'n 100% penodol yn golygu bod pob unigolyn iach yn cael ei nodi'n gywir fel un iach, h.y. nid oes canlyniadau positif anghywir (ibid.).

Yn ogystal, bu i'r adolygiad adnabod y nodweddion canlynol ar gyfer pob PAG:

- fformatau sydd ar gael ar gyfer gweinyddu (papur, electronig ac ati)
- nifer yr eitemau a'r amser a gymerir i roi'r prawf
- gofynion hyfforddi ar gyfer gweinyddu'r prawf
- gofynion trwyddedu (mynediad a chaniatâd i gyfieithu a defnyddio mewn iaith arall)
- costau'r drwydded
- argaeledd cyfieithiad Cymraeg wedi'i ddilysu o'r prawf.²

Gan fabwysiadu dull systematig, casglwyd gwybodaeth fanwl o wefannau'r deiliaid trwyddedau, lle oedd hyn ar gael. Cefnogwyd hyn ymhellach gan adolygiad o bob prawf –

² h.y. mi wnaeth y cyfieithu ddilyn camau a gydnabyddir yn rhyngwladol (Wild et al., 2005) ar gyfer sicrhau cyfystyron yn y Gymraeg a'r Saesneg.

adolygiadau lle defnyddiwyd Google Scholar a lle yr archwiliwyd y llenyddiaeth lwyd. Cadarnhaodd gwefan Llais argaeledd y cyfieithiadau Cymraeg.

2.2 Y dull a ddefnyddir ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cynhaliwyd y gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2023 a'u nod oedd codi ymwybyddiaeth am yr ymchwil a datblygu dull cydweithredol gydag GAC a rhanddeiliaid eraill.

Trefnwyd nifer o drafodaethau, cyflwyniadau a chyfarfodydd cyhoeddus i gyfnewid gwybodaeth:

- gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes gofal dementia
- pobl sydd â phrofiad o fyw gyda dementia a'u gofalwyr
- y gymuned ymchwil academiaidd
- aelodau'r cyhoedd.

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys: gweminar ar-lein a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia ym mis Ionawr 2022;³ grwpiau trafod dementia misol Llywodraeth Cymru; cyfarfodydd cyfnewid gwybodaeth gyda Alzheimer's Cymru a sefydliadau eraill; a chyflwyniadau mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol a Digwyddiad Pwll Tywod Dwyieithrwydd a Gwytnwch Dementia.⁴

Cafodd gwybodaeth am yr ymchwil hefyd ei chyhoeddi a'i lledaenu yn y cyfryngau print Cymraeg, y cyfryngau cymdeithasol a'r radio.

O ganlyniad i'r gweithgareddau ymgysylltu, cyfrannodd tua 30 o rhanddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau fel Cymdeithas Alzheimer Cymru, Prifysgol Bangor, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, at ddiffinio cwrpas ymchwil cam un gan ddylanwadu ar y fethodoleg a argymhellwyd ar gyfer camau dilynol. Gweler Atodiad U1 ar gyfer y rhestr lawn o rhanddeiliaid a gyfrannodd at y gweithgaredd hwn.

Cynhyrchwyd cwestiynau ymchwil drafft ar gyfer ymarferwyr asesu dementia, y bwriedir eu defnyddio yng nghamau dilynol yr ymchwil, ar y cyd â rhanddeiliaid ac fe'u dangosir yn Atodiad 2.

2.3 Ymgynghoriad rhwydwaith Gwasanaethau Asesu'r Cof (GAC):

Mae rhwydwaith cenedlaethol GAC yng Nghymru yn cynnwys 28 clinig asesu. Mynychodd aelodau'r tîm ymchwil ddau gyfarfod rhwydwaith GAC rhithwir trwy Microsoft Teams ym mis Medi a mis Tachwedd 2022. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, cyflwynwyd nodau ac amcanion yr ymchwil, ynghyd â chanlyniadau'r adolygiad pen-desg. Yn ogystal, gofynnwyd am gytundeb i ddosbarthu arolwg byr ar-lein i staff GAC ynghylch eu defnydd o PAGau. Gweler yr arolwg

³ Mynychodd dros 100 o bobl â gofal dementia, profiad o fyw gyda dementia a chefnidroedd diddordeb cyffredinol.

⁴ Gellir gweld rhestr lawn o weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn yr adroddiad technegol, sydd ar gael ar gais gan: research.healthandsocialservices@gov.wales

ar-lein o'r enw Dementia a'r Iaith Gymraeg / Dementia and the Welsh Language yn Atodiad
3.

3 Canfyddiadau

3.1 Canfyddiadau'r adolygiad pen-desg

Mae pum set o ganllawiau'r DU yn sôn am ddefnyddio PAGau mewn gwahanol leoliadau gofal dementia: Cymdeithas Alzheimer (2013), Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP, dim dyddiad), NICE (2018), Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021), a NICE (2021).

Mae 13 PAG wedi'u henwi yn y pum set o ganllawiau'r DU⁵:

- Sgôr Prawf Meddyliol Cryno, AMTS
- Asesiad o Wybyddiaeth Ymarferydd Cyffredinol, GPCOG
- Offeryn Asesu Gwybyddol Mini, Mini-Cog
- Sgriniwr Gwybyddol 10-pwynt, 10-CS
- Sgriniwr 6-eitem, SIS
- Prawf Nam Gwybyddol 6-eitem, 6CIT
- Sgrin Nam ar y Cof, MIS
- Profwch eich Cof, TYM
- Holiadur hysbysydd ar Ddirywiad Gwybyddol â'r Henoed, IQCODE
- Asesiad Cyflwr Meddwl Mini, MMSE
- Asesiad Gwybyddol Addenbrooke-III, ACE-III
- Archwiliad Gwybyddol Mini-Addenbrooke, M-ACE
- Asesiad Gwybyddol Montreal, MoCA

Yn ogystal â'r PAGau a argymhellwyd yng nghanllawiau'r DU, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r tîm ymchwil archwilio'r defnydd o'r 'Batri Amlroddadwy ar gyfer Asesiad o Statws Niwroseicolegol (Y BAANS / RBANS)' gan fod cyngor arbenigol yn awgrymu bod y raddfa hon yn cael ei defnyddio'n helaeth ledled [Cymru adeg y comisiynu](#).

Prif ganfyddiadau'r adolygiad oedd:

- bod pob PAG yn Nhabl 2.1 yn dangos priodweddau seicometrig sefydledig gyda sensitifrwydd a phenodolrwydd da⁶
- bod pob PAG ar gael yn hawdd ar-lein trwy'r cyhoeddwyr a cheir caniatâd i'w gweinyddu

⁵ Ceir, yn yr Adroddiad Technegol, trosolwg o'r profion a argymhellir i'w defnyddio ym mhob lleoliad gan bob set o ganllawiau. Mae'r adroddiad ar gael ar gais: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

⁶ Gweler yr Adroddiad Technegol am fwy o fanylion: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

- bod yr holl PAGau ar gael ar ffurf papur, a gellir gweinyddu pump yn electronig
- ac eithrio'r BAASN / RBANS, sy'n cymryd 30 munud i'w weinyddu, bod yr amser gweinyddu yn amrywio o dair i bymtheg munud
- bod costau trwydded yn cael eu codi yn achos [BAASN / RBANS](#) a'r MMSE⁷
- oherwydd materion hawlfraint, ni argymhellir defnyddio'r MMSE yn y DU mwyach (Aziz and Ahmed, 2014). Mae'r MoCA, ACE-III, a 6CIT yn cael eu nodi fel dewisiadau amgen i MMSE (ibid.)
- ers 2019, mae hyfforddiant byr ac ardystio wedi dod yn orfodol i weinyddu a sgorio'r MoCA ar gyfer defnydd clinigol, ymchwil ac addysgol (Nasreddine, 2019)
- bod cyfieithiadau Cymraeg safonedig wedi'u cynhyrchu ar gyfer chwech o'r PAGau⁸
- ac eithrio'r MMSE, roedd y broses gyfieithu a fabwysiadwyd ar gyfer sefydlu fersiynau Cymraeg o'r PAGau wedi dilyn canllawiau rhyngwladol llym (Wild et al., 2005) i sicrhau cyfystyron a dilysrwydd ieithyddol
- bod canllawiau'r DU ar gyfer defnyddio PAGau yn GAC yn argymhell defnyddio ACE-III, MoCA, ac MMSE yn unig
- Oherwydd costau, nid yw'r MMSE bellach yn ymarferol i GIG Cymru (Aziz and Ahmed, 2014). Fodd bynnag, mae'r ACE-III a MoCA yn fesurau cryf gydag nodweddion seicometrig dilyn a dibynadwy ar gyfer GAC. Mae'r ddau brawf wedi cael eu cyfieithu'n safonol i'r Gymraeg, gan sicrhau dilysrwydd ieithyddol.

Mae nodweddion ACE-III a MoCA yn cael eu manylu ymhellach yn yr adran hon.

3.2 Trosolwg o Archwiliad Gwybyddol Addenbrooke-III (ACE-III)

Mae'r ACE-III (Mathuranath et al., 2000) yn offeryn sgrinio gwybyddol a argymhellir i'w ddefnyddio gan ymarferwyr iechyd ac ymchwilwyr, a hynny mewn achosion cleifion dros 50 oed lle yr amheuir bod ganddynt ddementia. Mae'n cynnwys batri o brofion sy'n asesu pum parth gwybyddol gan gynnwys y gallu i dalu sylw, cof, rhuglder geiriol, iaith a galluedd gweledol-gofodol. Mae'r canlyniadau yn cael eu sgorio i roi cyfanswm sgôr allan o 100. Mae angen dehongli'r sgôr yng nghyd-destun hanes cyffredinol y claf, ac archwiliadau ohonynt,

⁷ Dosbarthwyd y MMSE heb gost yn wreiddiol. Nid yw deiliaid presennol yr hawlfraint, Psychological Assessment Resources 'yn rhoi caniatâd i gynnwys neu atgynhyrchu prawf neu raddfa gyfan mewn unrhyw gyhoeddiad (gan gynnwys traethodau hir a thraethodau ymchwil) neu ar unrhyw wefan' (Aziz ac Ahmed, 2014). [Bydd angen i bob defnyddiwr brynu'r profion gan PAR.](#)

⁸ Arholiad Gwybyddol Addenbrooke-III (ACE-III); Archwiliad Gwybyddol Mini-Addenbrooke (Mini-ACE); Asesiad Gwybyddol Montreal (MoCA); Asesiad o Wybyddiaeth Ymarferwyr Cyffredinol (GPCOG); Batri Amlroddadwy ar gyfer Asesiad o Statws Niwroseicolegol (RBANS) a'r Arholiad Cyflwr Meddwl Mini (MMSE).

ond ystyrir sgôr o 88 ac uwch yn normal; o dan 83 yn annormal; ac mae rhwng 83 ac 87 yn amhendant.⁹

Mae parthau gwybyddol o fewn yr ACE-III wedi'u dilysu yn erbyn batri o brofion niwroseicolegol safonol (Mathuranath et al., 2000; Crawford et al., 2012; Hsieh et al., 2013) gyda lefelau uchel o gydb berthynas rhwng y sgoriau parth a phroffion wedi'u targedu. Mae tair fersiwn wahanol yn bodoli (A, B ac C), gyda gwahanol ysgogiadau ar gyfer yr enw a'r cyfeiriad yn y weithgaredd dwyn i gof er mwyn atal cofio atebion profion blaenorol.¹⁰ Mae fersiwn bapur ac electronig ar gael, a gellir cyrchu fideo hyfforddi at ddibenion gweinyddol. Mae'r offeryn ar gael yn rhad ac am ddim ac mae caniatâd i'w ddefnyddio er dibenion gweinyddu.

Mae'r ACE-III wedi cael ei gyfieithu i sawl iaith ac mae wedi bod ar gael yn [Gymraeg ers 2014 \(llais\)](#) ac wedi'i wreiddio yn fersiwn Gymraeg Cymdeithas Alzheimer (2013) '[Eich helpu i asesu gwybyddiaeth: pecyn cymorth ymarferol i glinigwyr](#)' (Wales Mental Health in Primary Care).

Ers cyhoeddi'r cyfieithiad Cymraeg o'r prawf, mae'r fersiwn Saesneg (DU) o'r ACE-III [wedi'i ddiweddararu i fersiwn 2017](#).¹¹

Gan fabwysiadu ystod o ddulliau methodolegol, sefydlwyd gwerthoedd normadol ar gyfer gwahanol fersiynau iaith o'r ACE-III mewn sawl gwlad. Mae'r rhain yn ystyried dylanwadau demograffig fel oedran, addysg a rhyw. Dangoswyd bod defnyddio'r normau hyn, a addaswyd yn unol â demograffeg, yn gwella cywirdeb diagnostig y ACE-III (Matías-Guiu et al., 2016).

Mae rhestr gynhwysfawr o astudiaethau dilysu ar gyfer y ACE-III, gan gynnwys y rhai ar gyfer y fersiynau ohono sydd wedi'u cyfieithu ac astudiaethau data normadol, ar gael yn yr adroddiad technegol, ar gais.¹²

Datblygwyd Archwiliad Gwybyddol Mini-Addenbrooke (Mini-ACE) fel fersiwn fyrrach o'r ACE-III. Mae'r Mini-ACE wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio mewn lleoliadau lle nad yw gweinyddu'r ACE-III llawn yn ymarferol. Mae'n asesu parthau gwybyddol tebyg ond mewn modd mwy cryno. Mae gan y Mini-ACE gyfanswm sgôr o 30, gyda sgoriau uwch yn dynodi perfformiad gwybyddol gwell. Mae gweinyddiaeth y Mini-ACE yn cymryd tua 5 munud.

3.3 Trosolwg o Asesiad Gwybyddol Montreal (MoCA)

Mae'r MoCA (Nasreddine et al., 2005) yn brawf sgrinio gwybyddol 30-pwynt byr a gynlluniwyd i gynorthwyo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ganfod nam gwybyddol ysgafn. Ei nod yw asesu saith parth gwybyddol gan gynnwys gallu gweledol-gofodol,

⁹ Gall drothwyon amrywio ychydig yn dibynnu ar y boblogaeth sy'n cael eu profi a'r canllawiau penodol a ddefnyddir gan wahanol ymarferwyr

¹⁰ Nid oedd yn bosibl canfod o'r ymchwil pen-desg a yw'r tair fersiwn o'r prawf ACE-III yn cael eu defnyddio yng Nghymru.

¹¹ Er mwyn datrys amwysedd, roedd y diweddariad yn cynnwys mân eglurhad i un o gwestiynau'r cof : "Enw'r fenyw a oedd yn brif weinidog" → "Enw'r prif weinidog benywaidd cyntaf."

¹² ymchwil.iechydagwasanaethacymdeithasol@llyw.cymru

swyddogaeth weithredol, cof tymor byr, y gallu i dalu sylw, iaith, canolbwyntio a chyfeiriadedd mewn amser a lle. Mae'r canlyniadau yn cael eu sgorio allan o 30, gyda sgoriau uwch yn dangos perfformiad gwell. Er bod angen asesiad clinigol i ddehongli'r canlyniadau, mae sgôr o 18-25 yn arwydd o nam gwybyddol ysgafn; 10-17 yn arwydd o nam gwybyddol cymedrol a <10 yn arwydd o nam gwybyddol difrifol.¹³

Mae'r MoCA yn ddibynadwy ac yn ddilys (Nasreddine et al., 2005; Freitas et al., 2012; Koski 2013; Carson et al., 2018; Dautzenberg et al., 2020) ac yn perfformio'n well na'r MMSE wrth wneud diagnosis o nam gwybyddol ysgafn (Freitas et al., 2013). Mae rhwydd hynt i bobol ei ddefnyddio at ddibenion clinigol ond mae angen caniatâd ar gyfer defnydd ymchwil. Gall clinigwyr ardystiedig neu weithwyr iechyd proffesiynol weinyddu a sgorio MoCA, ond dim ond arbenigwyr mewn meysydd gwybyddol ddylai ddehongli canlyniadau. Ers mis Medi 2019, mae ardystiad gorfodol trwy gwrs ar-lein 1-awr yn sicrhau cysondeb, gan gostio \$150 USD y pen¹⁴. Neu, gyda dilysiad priodol, mae am ddim i fyfyrwyr, cyfadrannau ac ymchwilwyr academiaidd (Nasreddine 2019).

Mae'r MoCA wedi'i gyfieithu i sawl iaith. Mae fersiwn 7.1 wedi bod ar gael yn Gymraeg ers 2014 ac wedi'i ymgorffori yn fersiwn Gymraeg Cymdeithas Alzheimer (2013) '[Eich helpu i asesu gwybyddiaeth: pecyn cymorth ymarferol i glinigwyr](#)' (Wales Mental Health in Primary Care). Diweddarwyd fersiwn Saesneg y MoCA yn 2017 i [MoCA yn 2017 i fersiwn 8.1 \(MoCA Cognition\)](#).

Fel yr ACE-III, tra'n mabwysiadu ystod o ddulliau methodolegol, sefydlwyd gwerthoedd normadol ar gyfer gwahanol fersiynau iaith o'r MoCA mewn sawl gwlad. Mae'r rhain hefyd yn ystyried dylanwadau demograffig fel oedran, addysg a rhyw. Dangoswyd bod defnyddio'r normau hyn, a addaswyd yn ôl demograffeg, yn gwella cywirdeb diagnostig y MoCA (Freitas et al 2013).

Mae rhestr gynhwysfawr o astudiaethau dilysu ar gyfer y MoCA, gan gynnwys y rhai ar gyfer y fersiynau ohono sydd wedi'u cyfieithu ac astudiaethau data normadol, ar gael ar gais yn yr adroddiad technegol.

3.4 Casgliad yr adolygiad pen-desg

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad pen-desg, ACE-III a MoCA yw'r ddau PAG a argymhellir i'w defnyddio mewn GAC yng Nghymru. Profwyd bod ACE-III a MoCA yn fesurau cadarn ac mae cyfieithiad Cymraeg safonedig wedi'i ddilysu'n ieithyddol o bob offeryn wedi bod ar gael ers 2014.

Serch hynny, mae diffyg gwybodaeth am y defnydd o'r fersiwn Gymraeg o'r ACE-III a MoCA mewn lleoliadau GAC yng Nghymru a diffyg data normadol i lywio ymarfer clinigol.

¹³ Gall yr union system sgorio amrywio ychydig yn dibynnu ar y ffynhonnell a'r cyd-destun clinigol

¹⁴ Cywir pan yr ysgrifennwyd hyn

3.5 Canfyddiadau o'r ymgysylltu â rhanddeiliaid

Arolwg rhwydwaith GAC: Cwblhawyd yr arolwg gan 12 o gynrychiolwyr MAS¹⁵ o bum bwrdd iechyd gwahanol: byrddau iechyd Betsi Cadwalader, Hywel Dda, Bae Abertawe, Cwm Taf Morgannwg a Powys.¹⁶ Dywedodd un ar ddeg o'r deuddeg ymatebydd i'r arolwg eu bod wedi cynnal asesiadau gwybyddol mewn GAC. Nodwyd mai'r ACE-III a Mini-ACE oedd y PAGau a ddefnyddir amlaf ar gyfer asesu dementia, tra dywedwyd nad oedd y MoCA yn cael ei ddefnyddio'n helaeth.

Adroddwyd bod yr ACE-III a Mini-ACE yn cael eu defnyddio o leiaf unwaith yr wythnos neu unwaith y mis yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau GAC a gynrychiolir gan ymatebwyr yr arolwg. Fodd bynnag, nid oedd llawer o ymwybyddiaeth fod fersiwn Gymraeg o'r ACE-III a Mini-ACE PAGau.

Prif ganfyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid: Roedd rhanddeiliaid yn gryf o blaid dilysu PAGau Cymraeg ar gyfer diagnosis dementia ac, ar ben hynny, roeddent yn argymhell y dylid blaenoriaethu'r ACE-III a Mini-ACE i'w dilysu yn Gymraeg.¹⁷

Nododd y rhanddeiliaid bwysigrwydd diffinio 'dwyieithrwydd' ar gyfer asesiadau clinigol. Nid yw cleifion Cymraeg sy'n dewis cael eu profi yn Gymraeg o reidrwydd yn uniaith Gymraeg. Dylai dilysiadau PAGau Cymraeg ystyried proffil dwyieithog cleifion a staff GAC. Gall profi mewn un iaith yn unig fod yn broblem i'r rhai sy'n gyfarwydd â chymysgu'r ddwy iaith.

Nododd rhanddeiliaid yr hyn yr oeddent yn ei gredu oedd y dulliau ymchwil mwyaf priodol ar gyfer camau pellach dilysu PAGau Cymraeg. Roeddent o'r farn mai cyfweiliadau lled-strwythuredig gydag ymarferwyr oedd y dull mwyaf addas ar gyfer archwilio'r defnydd ymarferol o PAGau mewn amgylcheddau GAC. Yn ogystal, cynigiwyd arsylwi gweinyddiad y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ACE-III a Mini-ACE gyda chleifion Cymraeg eu hiaith mewn amgylcheddau GAC. Rhagdybiwyd bod y fethodoleg hon yn cynhyrchu data sylweddol ar arferion dwyieithog mewn lleoliadau clinigol, yn enwedig o ran (i) i ba raddau y mae staff yn cadw at Gynnig Gweithredol Mwy na Geiriau,¹⁸ ac effaith bosibl arferion staff ar ddewis cleifion i gael eu profi yn eu hiaith gryfach, a (ii) pa mor aml y mae cleifion Cymraeg eu hiaith yn darparu ymatebion uniaith neu ddwyieithog i dasgau PAG a gyflwynir yn Gymraeg neu Saesneg.

Bydd dadansoddi'r data hwn yn hanfodol ar gyfer creu protocol ymchwil priodol ar gyfer dilysu seicometrig ACE-III a Mini-ACE yn Gymraeg.

Wrth ystyried camau pellach yr ymchwil hwn, nododd rhanddeiliaid bwysigrwydd cynllunio casglu data clinigol mewn partneriaeth ag ymarferwyr GAC i sicrhau ei fod yn integreiddio'n ddi-dor i'w gweithdrefnau bob dydd. Yn y pen draw, dylai pob un o'r saith bwrdd iechyd prifysgol yng Nghymru gymryd rhan yn yr astudiaeth glinigol i safoni PAGau ar gyfer

¹⁵ Mae gwybodaeth manylach ynghylch nifer yr ymatebion gan bob bwrdd iechyd ar gael yn yr adroddiad technegol.

¹⁶ Ni dderbyniwyd ymatebion gan fyrddau iechyd Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro

¹⁷ Wrth nodi y byddai'r profion hyn yn elwa o ddilysu seicometrig gyda gwerthoedd normadol sefydledig, nid ydynt yn ddigonol ar gyfer profi pob math o ddementia. Bydd angen dulliau asesu eraill hefyd

¹⁸ Mae'r Cynnig Gweithredol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn rhagweithiol heb i'r defnyddiwr gwasanaeth orfod gofyn iddynt

siaradwyr Cymraeg ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, gellid cynnal astudiaeth beilot o fewn un bwrdd iechyd i fireinio'r dull casglu data. Dylai'r data PAG dienw a gesglir gynnwys manylion demograffig sylfaenol fel oedran, addysg, rhyw, proffil iaith, a chanlyniadau diagnostig.

Yn ogystal, dylid casglu data normadol o boblogaethau Cymraeg iach, gan ddefnyddio gwybodaeth ddemograffig tebyg sydd ar gael i bobl sy'n byw gyda dementia. Dylai'r sampl gynnwys siaradwyr Cymraeg 50 oed a hŷn o wahanol rannau o Gymru er mwyn cynnwys amrywiaeth o acenion, tafodieithoedd a phrofiadau o ddefnyddio'r Gymraeg dros eu hoes. Dylai'r broses o gasglu data normadol gael ei wneud gan unigolion sydd wedi'u hyfforddi i weinyddu PAGau.

Ystyriwyd bod y grŵp rhanddeiliaid a ffurfiwyd yn ystod cam un yn hanfodol ar gyfer gweithredu cydrannau ymchwil clinigol normadol yn y gymuned a GAC yn y gymuned yn llwyddiannus yn y dyfodol, os caiff ymchwil o'r fath ei gomisiynu. Dylai'r grŵp hwn gynnwys unigolion sydd â phrofiad bywyd o ddementia yn ogystal â gofalwyr.

Yn olaf, nododd rhanddeiliaid ddefnyddioldeb datblygu canllawiau cynhwysfawr ar gyfer ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau naill ai'n llawn neu'n rhannol yn Gymraeg.

4 Casgliadau

Roedd cam cyntaf yr ymchwili i ddilysu PAGau Cymraeg yn archwilio'r PAG a ddefnyddir amlaf mewn CAG yng Nghymru rhwng cyfnod astudio 2021-2023.

Mae'r canlyniadau'n dangos mai'r ACE-III a Mini-ACE yw'r PAGau a weinyddir amlaf yn y lleoliadau hyn. Cadarnhaodd yr adolygiad fod ACE-III a Mini-ACE yn offer effeithiol gyda'r priodweddau seicometrig gofynnol a chyfieithiadau Cymraeg dilysedig.

Fodd bynnag, er gwaethaf argaeledd fersiynau Cymraeg wedi'u dilysu'n ieithyddol o'r profion hyn ers 2014, prin yw'r ymwybyddiaeth a'r defnydd ohonynt ymhlith ymarferwyr GAC. Yn ogystal, mae diffyg data normadol i lywio ymarfer clinigol ar gyfer fersiynau Cymraeg y profion hyn.

Sefydlodd canfyddiadau cam un y gofynion methodoleg a gosod y sylfaen ar gyfer camau dilynol o waith dilysu. Dylai ymchwili yn y dyfodol adeiladu ar y canfyddiadau hyn i sicrhau bod PAGau cadarn, diwylliannol ac ieithyddol briodol yn cael eu datblygu ar gyfer unigolion sy'n siarad Cymraeg.¹⁹

¹⁹ Roedd y gwaith ymchwili hwn yn ansoddol ei natur, ac oherwydd maint bach y sampl dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r canlyniadau rhain. Dylai camau pellach yr ymchwili ailedrych ar y casgliadau a dynnwyd yma cyn bwrw ymlaen â gwaith ychwanegol

5 Argymhellion

Yn seiliedig ar ganfyddiadau cam un, mae'r argymhellion canlynol yn cael eu gwneud ar gyfer y cam nesaf o ymchwil:

Dilysu seicometrig: Blaenoriaethu'r dilysiad seicometrig o'r ACE-III a Mini-ACE yn Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod y profion hyn yn ddibynadwy ac yn ddilys i'w defnyddio gyda chleifion sy'n siarad Cymraeg.

Cyfweliadau gydag Ymarferwyr: Cynnal cyfweliadau lled-strwythuredig gydag ymarferwyr GAC Cymraeg a di-Gymraeg i gasglu eu barn a'u profiadau o weinyddu fersiwn Gymraeg yr ACE-III a Mini-ACE. Dylai'r cyfweliadau hyn anelu at:

- sefydlu argaeledd hyfforddiant i'r rhai sy'n cynnal yr asesiadau
- asesu unrhyw wahaniaethau a adroddwyd o ran cynnal asesiadau Saesneg a Chymraeg
- casglu barn ar gyfathrebu canlyniadau o fewn timau clinigol, yn enwedig pan nad yw pob aelod yn siarad Cymraeg
- cynnwys rhanddeiliaid, megis clinigwyr, i drafod defnyddio a dehongli asesiadau yn y Gymraeg
- gwerthuso argaeledd asesiadau iaith Gymraeg ac aseswyr Cymraeg.

Arsylwadau maes: Cynnal gwaith maes i arsylwi profi gwybyddol cleifion Cymraeg eu hiaith gan ddefnyddio'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ACE-III a Mini-ACE. Bydd hyn yn helpu i ddeall dwyieithrwydd mewn lleoliadau clinigol ac yn llywio datblygiad protocol ymchwil addas ar gyfer dilysu pellach.

Astudiaeth Beilot ar gyfer Casglu Data Clinigol: Mae cynnal astudiaeth beilot o'r ACE-III a Mini-ACE mewn un bwrdd iechyd yn gam a ffefrir er mwyn mireinio'r casgliad data asesu gwybyddol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Dylid datblygu'r peilot hwn mewn cydweithrediad ag ymarferwyr GAC i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn llyfn â'u llifioedd gwaith dyddiol. Dylai'r data PAG dienw a gasglwyd gwmpasu manylion demograffig fel oedran, addysg, rhyw, proffil iaith, a chanlyniadau diagnostig. Bydd canfyddiadau'r peilot hwn yn helpu i wneud y gorau o'r dull casglu data cyn cyflwyno'r astudiaeth ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru.

Casglu data normadol: Argymhellir casglu data normadol o boblogaethau Cymraeg iach. Dylai'r data hwn gynnwys manylion demograffig fel oedran, rhyw, addysg a phroffil iaith, gan sicrhau cymaroldeb i unigolion sy'n byw gyda dementia. Dylai'r sampl gynnwys siaradwyr Cymraeg 50 oed a hŷn o wahanol ranbarthau yng Nghymru fel bod amrywiaeth o acenion, tafodieithoedd a phrofiadau gyda'r Gymraeg drwy gydol eu hoes yn cael eu cynnwys. Dylai'r casgliad data normadol hwn gael ei gynnal gan ymchwilwyr sydd wedi'u hyfforddi i weinyddu'r asesiadau ACE-III a Mini-ACE.

Ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid: Argymhellir cynnal y cysylltiadau rhanddeiliaid a ddatblygwyd yn ystod cam un yr ymchwil ar gyfer gweithredu cydrannau ymchwil clinigol

normadol yn y gymuned a GAC yn llwyddiannus yn y dyfodol. Dylai'r grŵp hwn gynnwys unigolion sydd â phrofiad bywyd o ddementia yn ogystal â gofalwyr.

Canllawiau i Ymarferwyr: Datblygu canllawiau i ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn Gymraeg, wedi'u llywio gan ganfyddiadau'r ymchwil yma ac unrhyw ymchwil cam dau, gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr ieithyddol. Gwnewch yn siŵr bod argaeledd fersiynau Cymraeg o PAGau sydd wedi'u dilysu'n ieithyddol yn cael ei gydnabod yn eang mewn amgylcheddau GAC ledled Cymru.

6 Llyfryddiaeth

Alzheimer's Society (2013), 'Helping you to assess cognition: A practical toolkit for clinicians', London: Alzheimer's Society

Aziz VM, Ahmed, RA (2014), 'The Mini-Mental State Examination' (MMSE)

Carson N, Leach, L, Murphy, KJ (2018), 'A re-examination of Montreal Cognitive Assessment (MoCA) cutoff scores', *International Journal of Geriatric Psychiatry*, 33(2), pages 379 to 388

Clare L, Toms G, Thomas E, Hindle, J, Woods R (2017). 'Gweld y Gair: Standardisation and clinical application of a Welsh language measure for estimation of premorbid intellectual functioning', *FPOP Bulletin*, 139

Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (no date), 'Dementia: diagnosis and early intervention in primary care', Llundain, CBYC

Crawford S, Whitnall L, Robertson J, Evans, JJ (2012), 'A systematic review of the accuracy and clinical utility of the Addenbrooke's Cognitive Examination and the Addenbrooke's Cognitive Examination-Revised in the diagnosis of dementia', *International Journal of Geriatric Psychiatry*, 27(7), pages 659 to 669

Dautzenberg G, Lijmer J, Beekman A (2020), 'Diagnostic accuracy of the Montreal Cognitive Assessment (MoCA) for cognitive screening in old age psychiatry: Determining cutoff scores in clinical practice. Avoiding spectrum bias caused by healthy controls', *International Journal of Geriatric Psychiatry*, 35(3), pages 261 to 269

Freitas S, Simões MR, Alves L, Santana I (2013), 'Montreal cognitive assessment: validation study for mild cognitive impairment and Alzheimer disease', *Alzheimer Disease and Associated Disorders*, 27(1), pages 37 to 43

Freitas S, Simões M, Alves L, Vicente M, Santana I (2012), 'Montreal Cognitive Assessment (MoCA): Validation Study for Vascular Dementia', *Journal of the International Neuropsychological Society*, 18(6), pages 1031 to 1040

Hsieh S, Schubert S, Hoon C, Mioshi E, Hodges, JR, (2013), 'Validation of the Addenbrooke's Cognitive Examination III in frontotemporal dementia and Alzheimer's disease', *Dementia and Geriatric Cognitive Disorders*, 36, pages 242 to 250

Koski, L (2013), 'Validity and applications of the Montreal cognitive assessment for the assessment of vascular cognitive impairment', *Cerebrovascular Diseases (Basel, Switzerland)*, 36(1), pages 6–18

Matías-Guiu JA, Fernández-Bobadilla R, Fernández-Oliveira A, Valles-Salgado M, Rognoni, T, Cortés-Martínez A, Moreno-Ramos T, Kulisevsky J, Matías-Guiu J (2016), 'Normative Data for the Spanish Version of the Addenbrooke's Cognitive Examination III', *Dementia and Geriatric Cognitive Disorders*, 41(5 to 6), pages 243 to 250

Mathuranath PS, Nestor PJ, Berrios GE, Rakowicz W, Hodges JR (2000), 'A brief cognitive test battery to differentiate Alzheimer's disease and frontotemporal dementia', *Neurology*, 55(11), pages 1613 to 1620

Nasreddine ZS, Phillips NA, Bédirian V, Charbonneau S, Whitehead V, Collin I, Cummings JL, Chertkow H (2005), 'The Montreal Cognitive Assessment, MoCA: a brief screening tool for mild cognitive impairment', *Journal of the American Geriatrics Society*, 53(4), pages 695–699

Nasreddine ZS (2019), 'MoCA Test Mandatory Training and Certification: What is the Purpose?', NICE (2018) *Dementia: assessment, management and support for people living with dementia and their carers*, London: NICE

NICE (2021), *NICE Clinical Knowledge Summaries: Dementia Assessment*, London: NICE

Roberts S, Woods RT, Jones E (2010), 'BAASN: fersiwn Gymraeg o'r RBANS, wedi ei gyfieithu o'r Saesneg', Prifysgol Bangor, Doethuriaeth mewn Seicoleg Glinigol

Souza AC, Alexandre NMC, Guirardello EB (2017), 'Psychometric properties in instruments evaluation of reliability and validity', *Epidemiol Serv Saude*, 26(3), pages 649 to 659

Swift A, Heale, R, Twycross A (2020), 'What are sensitivity and specificity?', *Evidence Based Nursing*, 23(1), pages 2 to 4

Wild D, Grove A, Martin M, Eremenco S, McElroy S, Verjee-Lorenz A, Erikson P (2005), 'ISPOR Task Force for Translation and Cultural Adaptation. Principles of Good Practice for the Translation and Cultural Adaptation Process for Patient-Reported Outcomes (PRO) Measures: report of the ISPOR Task Force for Translation and Cultural Adaptation', *Value in Health*, 8(2), pages 94 to 104

Atodiad 1

Rhanddeiliaid a gyfrannodd at ddiffinio cwmpas yr ymchwil cam un ac a wnaeth argymhellion ar gyfer methodoleg ymchwil bellach:

Cymdeithas Alzheimer Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Coleg Brenhinol Nyrsio Cymru
Prifysgol Bangor	IAITH	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Unigolion sydd â phrofiad o fyw gyda dementia neu ofalu am rywun â dementia	Gofal Cymdeithasol Cymru
Fforwm Gofal Cymru	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Gofalwyr Cymru	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Together in Dementia Everyday
Caron Group	Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol	Llywodraeth Cymru Comisiynydd y Gymraeg

Atodiad 2

Ar y cyd cynhyrchwyd cwestiynau drafft ar gyfer cyfweiliadau ymarferwyr a awgrymwyd ar gyfer camau dilysu PAGau Cymraeg dilynol:

- Wyt ti'n siarad Cymraeg?
- A fyddai'n well gennych gwblhau'r cyfweiliad hwn yn Gymraeg neu Saesneg?

Cyffredinol

- Ydych chi'n gweithio yn GAC?
- Beth yw eich rôl broffesiynol?
- Ydych chi'n asesu cleifion ar gyfer nam gwybyddol?
- Pa gyfarwyddiadau / protocolau GAC ydych chi'n eu dilyn?
- Pa PAGau ydych chi'n eu defnyddio?
- Ydych chi'n defnyddio ACE-III a Mini-ACE? (ac unrhyw offer asesu arall?)
- Os felly, beth yw eich profiad o'r adnoddau hyn?
- Pa hyfforddiant ydych chi wedi'i dderbyn o ran eu gweinyddu?
- Ydych chi'n defnyddio'r fformat electronig neu'r copi(au) caled?
- Lle ydych chi'n cyrchu'r offer hyn?
- Beth yw'r prif fanteision / heriau wrth ddefnyddio'r offer hyn?
- Sut ydych chi'n cofnodi / dogfennu eich canfyddiadau? (Yn Gymraeg? Yn Saesneg? Sut ydych chi'n rhannu negeseuon o fewn y tîm clinigol?)

Darpariaeth Gymraeg

- Ydych chi'n gweld cleifion Cymraeg eu hiaith yn eich clinigau? (Ydych chi'n cofnodi nifer y cleifion sy'n siarad Cymraeg, ac a ellid rhannu'r data hynny?)
- Sut ac â pha gam o atgyfeirio ydych chi'n gwybod eu bod nhw'n siarad Cymraeg? (Sut ydych chi'n gwybod? Beth yw eich profiad chi o'r Gymraeg a'r Saesneg? A yw'r cwestiwn hwn yn cael ei ofyn bob tro y bydd rhywun yn cael ei asesu?)
- Ydy siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyfeirio at ymarferwyr Cymraeg eu hiaith yn eich clinigau? (Oes rhywun yn y clinig sy'n gallu hwyluso hyn e.e. cydweithwyr o ardal arall yng Nghymru? Pa mor hir y bydd yn rhaid iddynt aros? A yw cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddefnyddio? Os felly, pwy sy'n darparu'r cyfieithiad?)
- Os felly, a yw hon yn weithdrefn safonol neu ad-hoc?

- Yn eich barn chi, beth yw'r manteision / anfanteision wrth asesu cleifion Cymraeg eu hiaith yn Gymraeg?
- Oeddech chi'n gwybod bod yr ACE-III a Mini-ACE ar gael yn Gymraeg? (Os ydych chi'n gwybod, ydych chi'n gwybod lle i gael gafael arnyn nhw?)
- Ydych chi neu'ch cydweithwyr yn defnyddio'r offer Cymraeg hyn yn eich clinigau?
- Oes gennych chi farn am eu defnydd?
- Ydych chi'n defnyddio'r fformatau papur?
- Ble ydych chi neu'ch cydweithwyr yn defnyddio'r offer Cymraeg hyn?
- Sut ydych chi'n cofnodi / dogfennu eich canfyddiadau?
- Beth yw'r prif fanteision/heriau wrth ddefnyddio'r offer Cymraeg hyn?

Cwestiynau i ymarferwyr Cymraeg eu hiaith

- Pa mor hyderus ydych chi wrth asesu cleifion yn y Gymraeg?
- Ydych chi'n defnyddio cyfieithydd?
- Faint o gefnogaeth ydych chi'n teimlo wrth eich sefydliad wrth ddefnyddio'r Gymraeg?
- Beth sy'n dylanwadu ar eich defnydd o'r Gymraeg o dan yr amgylchiadau hyn?
- Pa weithdrefnau neu brotocolau ydych chi'n eu dilyn?
 - Ymateb i ddewis iaith / angen ymgynghori?
 - Cynnal ymgynghoriad yn Gymraeg / Saesneg / y ddwy iaith?
 - Gweinyddu ACE-III / Mini-ACE Saesneg (gyda neu heb gyfieithiad Cymraeg ad-hoc, yn ôl yr angen)?
 - Gweinyddu ACE-III / Mini-ACE Cymraeg (gyda neu heb gyfieithiad Saesneg ad-hoc, yn ôl yr angen)?
 - Caniatáu atebion Cymraeg a Saesneg wrth sgorio?
 - Arall?
- Beth yw eich profiad o ddefnyddio fersiynau Cymraeg yr ACE-II a Mini-ACE?
- Beth yw'r prif heriau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r offerynnau Cymraeg hyn?
- Yn eich barn chi, sut y gellir goresgyn yr heriau hyn?
- Nid oes normau na data normadol ar gael eto ar fersiynau Cymraeg ACE-III a Mini-ACE. I ba raddau mae hyn yn effeithio ar eich ymarfer?
- Mae cynlluniau i gasglu'r normau hyn mewn prosiect ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n bwriadu recriwtio:

- Clinigwyr Cymraeg eu hiaith mewn clinigau cof ledled Cymru i gasglu data dienw o garfan glinigol fel rhan o'u harferion arferol.
- Rheolaethau gan grwpiau cymunedol i adlewyrchu'r sampl glinigol.
- Beth yw eich barn am y cynnig hwn?
- Pa heriau allwch chi eu hadnabod?
- Oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr astudiaeth?
 - Os felly, gofynnwn yn garedig ichi ddarparu eich manylion cyswllt.

Cwestiynau i ymarferwyr di-Gymraeg

- Nid oes normau na data normadol ar gael eto â fersiynau Cymraeg y ACE-III a MoCA.
- Fodd bynnag, mae cynlluniau i goladu'r normau hyn mewn prosiect ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio recriwtio:
 - Clinigwyr Cymraeg eu hiaith mewn clinigau cof ledled Cymru i gasglu data dienw o gohort clinigol fel rhan o'u harferion arferol.
 - Rheolaethau gan grwpiau cymunedol i adlewyrchu'r sampl glinigol.
- Beth yw eich barn am y cynnig hwn?
- Pa heriau allwch chi eu hadnabod?
- Defnyddiwch rai o'r cwestiynau a ofynnir uchod ar gyfer yr ymarferwyr hynny sy'n defnyddio cyfieithydd i gynnal yr asesiad

Cwestiynau Trafod Ychwanegol

- Pam felly?
- Dywedwch fwy wrthyf.
- Allwch chi roi enghraifft i mi?

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Atodiad 3

Cwestiynau arolwg ymgynghori GAC ar-lein:

Dementia a'r iaith Gymraeg - Asesiad Dementia a'r Gymraeg - Asesiadau GAC

Diolch am ddilyn y linc, mae'r ffurflen hon yn gyfle i ni gasglu gwybodaeth am y asesiadau sydd yn cael eu defnyddio o fewn Rhwydwaith y gwasanaeth Clinig Cof. Bydd eich ymateb yn cael eu hanfon at Dr Catrin Hedd Jones, Prifysgol Bangor, a'i rannu gydag ymchwilwyr IAITH sydd yn arwain ar y gwaith ymchwil i ddilysu'r asesiad dementia Cymraeg a Rhwydwaith Gwasanaeth Asesiadau Cof.

Thank you for using the link, this form is your opportunity to share which Assessments are currently in use within Memory service teams. Your responses will be sent to Dr Catrin Hedd Jones, Bangor University, and shared with researchers at IAITH working for the Welsh Government and in partnership with the MAS network to gather knowledge on validating the Welsh language dementia assessments.

1.Wyt ti yn cynnal asesiadau yn y Clinig Cof? / Do you conduct Assessments in the Memory Clinic?

Yndw/ Yes

Na/ No

Byddaf yn y dyfodol/ Yes in the future

2.Beth yw teitl dy swydd a proffesiwn? Please tell us your job title and profession?

3.Ym mha Fwrdd Iechyd rwyd yn gweithio? Which Health Board do you work in?

BIPBC / BCUHB

Hywel Dda

Bae Abertawe/ Swansea Bay

Cwm Taf Morganwg

Aneiryn Bevan

Powys

Caerdydd a'r Fro / Cardiff and Vale

4.Os wyt yn cynnal asesiadau hoffwn wybod pa brofion rwyd yn ddefnyddio o'r rhestr islaw / If you carry out assessments, we would like to know which ones you use and how often

Options: At least every week /At least once a month/ At least every six months /Never /There's a Welsh version of this test /I don't know this test

ACE-iii Mini -ACE RTI GPCOG MOHOST OSA AD8 The abbreviated mental test score (AMTS) Placemat Frontal Assessment Battery (FAB) MoCA OCAIRS EXIT 25 (Executive

Interview) LACs MMSE Mini-Cog 10-point Cognitive Screener (10- CS) MOHO Explore 6-CIT AusTOMs

5.Ydych chi yn defnyddio profion eraill yn rheolaidd sydd heb eu cynnwys yn y tabl?/ Do you routinely use any other assessments not listed above? Yndw/ Yes Na/ No

Os Yndw, beth ydi nhw? If Yes, what are they?

6.Sawl aelod o staff yn eich clinig sydd yn cynnal asesiadau? How many staff in your clinic conduct cognitive assessments?

7.Sawl asesydd ar hyn o bryd sydd yn siarad Cymraeg yn eich gwasanaeth?/ How many Welsh speaking assessors do you currently have in your service?

8.Beth ydi eich gallu Cymraeg? What is your current level of your Welsh?

Dim o gwbl / None whatsoever

Dangos cwrteisi, agor a chau sgwrs yn Gymraeg / Demonstrate courtesy, open or close a conversation in Welsh

Deall ac ymateb i geisiadau syml e.e. rhoi a derbyn cyfarwyddiadau / Understand and respond to simple requests e.g. give and receive instructions

Digon o eirfa i ddelio gyda sefyllfaoedd bob dydd, e.e. sgwrsio gyda rhywun dwi ddim yn adnabod / Enough vocabulary to be able to deal with everyday situations e.g. chatting to someone I don't know well

Trafod materion cyffredin a delio gyda sefyllfaoedd mwy ffurfiol os rwyf yn cael cyfle i baratoi e.e. cyfweiliadau, cyfarfodydd / Discuss general matters and deal with more formal situations if I can prepare in advance e.g. interviews, meetings

Rhugl a medru delio gyda phob math o sefyllfaoedd / Fluent speaker and able to deal with every type of situation

9.Rydym yn gobeithio cydweithio â chi i sicrhau fod yr ymchwil yn llwyddiannus a defnyddiol i chi yn eich gwaith ac felly yn gofyn i unrhyw rai sydd â diddordeb yn y gwaith yma i anfon neges i XXXXXXXXXX neu ffonio XXXXXXXXXX. / We would like to work with assessors to ensure that the research is planned in line with your processes and delivers useful results to facilitate your work. If you are interested in this research, please contact XXXXXXXX on email XXXXXXXXXX or call XXXXXXXXXX to register your interest.

10.Unrhyw sylwadau hoffech ei rannu? / Any comments you would like to share with us? Yndw/ Yes Na/ No

11.Ydych chi eisiau i ymchwilwyr IAITH gadw mewn cysylltiad â chi wrth i'r ymchwil ddatblygu? / Would you like the IAITH researchers to keep in touch with you as the research develops?

Os felly , rhannwch eich manylion cyswllt islaw / If you responded yes to question 12 please share you contact details below